



Ysgol Hafod Lon,  
Parc Busnes Eryri,  
Penrhyndeudraeth,  
LL48 6LD  
Pennaeth: Mrs Donna Roberts

01766772140

[post@ysgolhafodlon.co.uk](mailto:post@ysgolhafodlon.co.uk)

Dydd Llun, 20 Ebrill 2020.

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr,

Gobeithio eich bod wedi cael siawns i ymlacio yn ystod gwyliau Pasg a croeso i Tymor yr Haf ble rydym yn dysgu o bell cyntaf erioed!

Rydym i gyd wedi cael amser i addasu i ffyrdd newydd o weithio, felly roeddwn eisiau manteisio ar y cyfle yma i ddweud pa mor dda yr ydych yn ei wneud yn cefnogi lles ac addysg eich plentyn yn ystod y cyfnod yma.

Mae hi'n bendant wedi bod yn amser rhyfedd a heriol ac oherwydd hyn mae hi'n iawn os ydych chi neu eich plentyn yn teimlo'n boenus ac yn ansicr ar y funud. Rydym yma i chi bob cam o'r ffordd tra rydym yn gweithio trwy hyn gyda'n gilydd. Cofiwch, os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â helpu eich plentyn ddysgu neu os ydych angen unrhyw gefnogaeth gan yr ysgol, plis gadwch i ni wybod drwy gysylltu gyda athro eich plentyn drwy ebost Hwb, Google Classroom neu Seesaw, neu ffonio yr ysgol.

Rydym yn colli y plant i gyd yn arw, ond mae rhaid dilyn arweiniad y llywodraeth i gadw pawb yn y gymuned yn ddiogel

Er nad ydym yn y r'un adeilad, nid yw hyn yn golygu na allwn gael hwyl gyda'n gilydd! Bydd eich plentyn yn derbyn gweithgareddau i'w cadw yn brysur ac i fwynhau dros tymor yr haf – cadwch lygaid allan amdanynt ar Facebook, Hwb, Google classroom neu Seesaw.

Rydym wrth ein boddau yn gweld dysgu gwyh eich plentyn adref – a mae croeso i chi yrru gwaith eich plentyn ar ebost, Seesaw, Hwb neu Google classroom fel y byddwn yn gallu ei arddangos ar Facebook maes o law.

Nid ydym yn gallu dweud eto pa bryd fydd yr ysgol yn agor yn llawn, ond dymunwn i chi fod yn dawel eich meddwl y byddwn yn parhau i wneud ein gorau dros addysg eich plentyn ac i gadw cymuned ein ysgol mewn cysylltiad.

Ffwrdd a ni ar gychwyn Tymor yr Haf!

Cadwch yn saff ac yn ddiogel.

Yn gywir

Donna Rees Roberts